Department of Health & Social Care

Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

Cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Dyddiad cau: canol dydd ar 25 Ionawr 2021
Cyfeirnod: VAC-1692

Dilynwch ni ar Twitter @appointmentsdh

Regulated by The Commissioner for Public Appointments

Cynnwys

Adran 1 – Y rôl 2

1.1 Rôl a chyfrifoldebau Cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd 2

1.2 Rôl a chyfrifoldebau'r Asiantaeth Safonau Bwyd 6

Adran 2: Sut i wneud cais 9

2.1 Gwneud cais 9

2.2. Y broses ddethol 13

2.3 Anghymhwyso rhag penodi 18

2.4 Sut y byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol 20

Adran 1 – Y rôl

1.1 Rôl a chyfrifoldebau Cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Cyflwyniad

Mae Gweinidogion am benodi Cadeirydd i fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Penodir y Cadeirydd ar y cyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Gweinidogion priodol yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.

Rôl a chyfrifoldebau'r Cadeirydd

Mae Cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn uniongyrchol atebol i Senedd y Deyrnas Unedig (DU), drwy Bwyllgorau Dethol, ac – ar lawr dau Dŷ Senedd y DU, Senedd Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon – drwy'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gweinidogion Iechyd Cymru a Gogledd Iwerddon.

Bydd disgwyl i'r Cadeirydd arwain a herio'r sefydliad drwy gyflawni'r cyfrifoldebau a ganlyn:

- Cydweithio â'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr i bennu trywydd strategol yr ASB, gan sicrhau bod yr adran yn parhau i fynd ati'n effeithiol iawn i ddiogelu iechyd y cyhoedd, i ddiogelu buddiannau ehangach defnyddwyr o ran bwyd, ac i wireddu'r genhadaeth o ran "bwyd y gallwn ymddiried ynddo". Ar yr un pryd, bydd yn cydnabod bod angen rheoleiddio mewn ffordd gymesur a sicrhau cydbwysedd rhwng risg a'r rhyddid i wneud dewisiadau

- Hyrwyddo gwerthoedd craidd yr ASB, sef rhoi defnyddwyr yn gyntaf, gwneud penderfyniadau ar sail gwyddoniaeth a thystiolaeth, bod yn annibynnol ar fuddiannau gwleidyddol a buddiannau sectorau penodol, a gweithredu mewn ffordd dryloyw ac agored

- Rhoi arweiniad i'r Bwrdd er mwyn iddo gyflawni'n llwyr ei gyfrifoldebau strategol a'i gyfrifoldebau o ran llywodraethu a sicrwydd fel adran anweinidogol, gan gynnwys craffu ar waith y tîm gweithredol a'i gefnogi

- Sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i recriwtio, sefydlu, datblygu a rheoli perfformiad y Cyfarwyddwyr Anweithredol, y Prif Weithredwr, y Prif Gynghorydd Gwyddonol a Chadeirydd y Cyngor Gwyddoniaeth. Meithrin a chynnal perthynas waith gefnogol â'r Prif Weithredwr a'r Prif Gynghorydd Gwyddonol

- Arwain perthynas waith agos â'r Gweinidogion iechyd a bwyd yn y tair gwlad, ynghyd â Chadeirydd Safonau Bwyd yr Alban, gan weithio ar draws ffiniau sefydliadol i gefnogi'r broses o roi polisïau safonau bwyd y DU ar waith

- Arwain perthynas waith effeithiol â'r awdurdodau lleol i helpu i sicrhau bod bwyd yn parhau i fod yn ddiogel ac yn onest, gan ddefnyddio pwerau'r ASB o dan y Ddeddf

Safonau Bwyd i oruchwylio'r camau a gymerir gan yr awdurdodau lleol i orfodi'r gyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, ac i ddylanwadu arnynt

- Arwain y berthynas rhwng y sefydliad a rhanddeiliaid fel uwch-ffigurau mewn diwydiant ac ym meysydd gwyddoniaeth a defnyddwyr, yn ogystal â Seneddwyr, gan osod y naws ar gyfer perthynas waith ragorol, a chynrychioli'r ASB mewn cyfarfodydd, cynadleddau a digwyddiadau cyhoeddus

- Cynrychioli'r ASB yn effeithiol ar y cyfryngau, ac mewn cyfarfodydd, cynadleddau a fforymau cyhoeddus eraill, p'run a yw'n trafod buddiannau strategol defnyddwyr o ran bwyd, neu'n ymdrin â phryderon penodol uchel eu proffil o ran diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid

Y rhinweddau gofynnol ar gyfer rôl y Cadeirydd

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn hybu amrywiaeth ac yn rhoi gwerth arni, ac mae'n annog pobl o bob rhan o'r gymuned i wneud cais. Dylai byrddau cyrff cyhoeddus adlewyrchu'r boblogaeth y maent yn ei gwasanaethu. Mae byrddau hefyd yn elwa o glywed safbwyntiau newydd, ac rydym bob amser yn awyddus i annog ymgeiswyr â phrofiad o weithio yn y sector preifat i ystyried gwneud cais i'w penodi.

Y meini prawf hanfodol

I gael eich ystyried, rhaid i chi allu dangos eich bod yn meddu ar y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad sy'n ofynnol i fodloni pob un o'r meini prawf penodi hanfodol.

- Sgiliau arwain strategol cadarn a hanes o gyflawni ar y lefelau uchaf yn eu gyrfa, ynghyd â'r gallu i arwain sefydliad cenedlaethol pwysig drwy gyfnod pan fydd yn destun gwaith craffu uchel ei broffil

- Meddu ar y gallu i roi trefniadau atebolrwydd o'r safon uchaf ar waith ar lefel bwrdd a'r sector cyhoeddus, gan gynnwys llywodraethu, atebolrwydd, uniondeb a phriodoldeb cadarn, gan ddatblygu bwrdd sy'n cyflawni at safon uchel a chydweithio'n effeithiol â thîm gweithredol

- Dangos arweiniad ac ymrwymiad i ymarfer cynhwysol ac i hybu cyfle cyfartal

- Meddu ar sgiliau cyfathrebu rhagorol, a bod yn gyfforddus yn gweithredu'n gyhoeddus, gan gynnwys pan fydd yn ymdrin â'r cyfryngau

- Bod yn wleidyddol graff a gallu mynd ati'n fedrus i feithrin perthynas gynhyrchiol a chefnogol ag amryfal randdeiliaid mewn llywodraethau, mewn diwydiant, ac ym meysydd gwyddoniaeth a defnyddwyr

- Bod yn hyddysg mewn gwyddoniaeth, gan gynnwys gweithio'n hyderus gyda chyngor gwyddonol, deall risgiau, a deall y broses o lunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth *(Sylwch: nid yw'n hanfodol bod gan ymgeiswyr arbenigedd gwyddonol dwys na phroffesiynol)*

- Ymrwymiad clir i swyddogaethau'r ASB, sef diogelu iechyd y cyhoedd, diogelu buddiannau ehangach defnyddwyr o ran bwyd, a rhoi'r genhadaeth o ran "bwyd y gallwn ymddiried ynddo" ar waith

Tâl

- Telir tâl cydnabyddiaeth ar gyfradd o £70,000 y flwyddyn i Gadeirydd yr ASB

- Mae'r tâl hwn yn drethadwy ac yn destun cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Didynnir y symiau hyn o'r tâl drwy'r system Talu Wrth Ennill cyn i chi gael eich talu. Nid yw'r tâl yn bensiynadwy.

- Cewch hawlio unrhyw gostau teithio a chynhaliaeth y byddwch yn mynd iddynt yn briodol ac o reidrwydd i gyflawni eich rôl a'ch cyfrifoldebau fel Cadeirydd yr ASB, a hynny yn unol â pholisi a chyfraddau teithio a chynhaliaeth yr ASB. Gallwch gael copi o'r polisi a'r cyfraddau gan yr ASB

Ymrwymiad amser

2.5 i 3 diwrnod yr wythnos

Cynhelir pedwar cyfarfod o'r Bwrdd bob blwyddyn ar ddyddiau Mercher, a'r rheini'n cael eu ffrydio dros y rhyngrwyd. Cynhelir sesiynau briffio mewnol ar y diwrnod cyn pob un o gyfarfodydd y Bwrdd. Cynhelir y cyfarfodydd o amgylch Lloegr, ond cynhelir o leiaf un cyfarfod y flwyddyn yng Nghymru neu yng Ngogledd Iwerddon. Ceir dau encil mewnol ar gyfer y Bwrdd bob blwyddyn hefyd, a'r rheini fel arfer ym mis Ionawr a mis Hydref.

Dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd yn 2021

Dydd Mawrth 19 Ionawr 2021 – Encil y Bwrdd
Dydd Mawrth 9 a dydd Mercher 10 Mawrth 2021 – cyfarfodydd y Bwrdd
Dydd Mawrth 15 a dydd Mercher 16 Mehefin 2021 – cyfarfodydd y Bwrdd
Dydd Mawrth 14 a dydd Mercher 15 Medi 2021 – cyfarfodydd y Bwrdd
Dydd Llun 11 a dydd Mawrth 12 Hydref 2021 – Encil y Bwrdd
Dydd Mawrth 7 a dydd Mercher 8 Rhagfyr 2021 – cyfarfodydd y Bwrdd
Cewch hyd i God Ymddygiad yr ASB ar gyfer Aelodau'r Bwrdd, Cylch Gorchwyl yr ASB a Rheolau Sefydlog yr ASB yn:
https://www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/ein-bwrdd?navref=quicklink

Lleoliad

Llundain neu leoliad arall

Hyd y penodiad

Mae'r Gweinidogion wedi pennu y bydd y penodiad yn para hyd at dair blynedd.

Atebolrwydd

Penodir y Cadeirydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Gweinidogion priodol yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, ac mae'n atebol i'r Gweinidogion drwy uwch-swyddog adrannol am gyflawni ei (d)dyletswyddau ac am ei berfformiad/pherfformiad.

I gael mwy o wybodaeth am rôl yr ASB a rôl y Cadeirydd, cysylltwch â:

Enw: Dr David Self – Pennaeth y Swyddfa Breifat

Ffôn: 07984 883451

E-bost: David.Self@food.gov.uk

neu

Enw: Emily Miles – Prif Weithredwr

E-bost: Emily.Miles@food.gov.uk

1.2 Rôl a chyfrifoldebau'r Asiantaeth Safonau Bwyd

Neges gan Gadeirydd presennol yr ASB, Heather Hancock

Rwyf wrth fy modd eich bod yn ystyried gwneud cais i gael eich penodi'n gadeirydd Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Byddech yn cymryd yr awenau ar adeg hollbwysig o ran y ffordd yr ydym yn diogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr o ran bwyd. Mae arwain yr adran hon yn brofiad buddiol iawn sy'n dod â heriau a chyfleoedd diddorol a dyrys i'ch rhan.

Ers ugain mlynedd, mae'r ASB wedi gweithredu mewn rôl gymharol anarferol, a hithau'n adran anweinidogol sy'n gwasanaethu tair llywodraeth – Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Sefydlwyd yr adran yn sgil yr argyfwng BSE pan fu i hyder defnyddwyr mewn diogelwch bwyd a dylanwad gwleidyddol ddisgyn yn sydyn. Dyna'r rheswm pam nad ydym yn cael cyfarwyddyd gwleidyddol, pam ein bod yn annibynnol iawn, a pham ein bod yn gweithredu drwy roi'r defnyddwyr yn gyntaf. Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r argyfwng BSE hefyd wedi'u gwau drwy ein hymrwymiad diamod i weithredu mewn ffordd agored a thryloyw, ac ar sail gwyddoniaeth a thystiolaeth. Ein ffocws di-ildio ar yr egwyddorion sylfaenol hyn yw un o'r rhesymau pam fod y cyhoedd yn ymddiried cymaint ynom – 73% yn yr arolwg diwethaf, ffigur sy'n ein rhoi ymhlith y deg sefydliad â'r enw da gorau yn y sector cyhoeddus.

A ninnau'n agosáu at ddiwedd y cyfnod pontio, mae'r ASB yn edrych ymlaen at roi ar waith y paratoadau a wnaed dros y pedair blynedd diwethaf i ddychwelyd cyfrifoldebau o'r Undeb Ewropeaidd (UE). Rydym yn hyderus y bydd ein paratoadau yn gyfan gwbl effeithiol ac y byddwn yn rhoi trefn reoleiddio gyfatebol ar waith a fydd yn sicrhau bod ein bwyd yn bodloni'r un safonau uchel a ddisgwylir gan bob un ohonom yn y DU. Mae'r tair llywodraeth yr ydym yn cydweithio â nhw wedi ymrwymo'n gyhoeddus i gynnal ein safonau bwyd presennol, ac rydym yn bwriadu parhau i fod yn llais dylanwadol ar y llwyfan byd-eang o ran diogelwch bwyd a rheoleiddio bwyd. Ond rydym yn dra ymwybodol o'r ffaith mai anaml y bydd diwrnod yn mynd heibio heb inni ddarllen penawdau am effaith cytundebau masnach y dyfodol ar ein bwyd. Gan fod bwyd yn fater sy'n ennyn teimladau cryf ac yn fater o bwys economaidd, bydd ein dadansoddiad risg a'n cyngor i Weinidogion yn dod o dan y chwyddwydr a byddant yn cael eu profi a'u herio. Fel Cadeirydd, byddwch chi'n arwain y Bwrdd a'r tîm gweithredol drwy'r sefyllfa hon, gan roi ar waith genhadaeth yr ASB i sicrhau bod y cyhoedd yn gallu ymddiried bod eu bwyd yn ddiogel ac yn ddilys, a'u bod bob amser yn gallu troi at yr ASB i glywed y gwir am fwyd.

Ond nid cyfnod pontio'r UE yw'r unig fater cymhleth ar ein hagenda. Mae Bwrdd yr ASB wedi ymrwymo i arloesi ac i sicrhau ei bod yn hawdd i fusnesau bwyd wneud y peth iawn. Mae gennym raglen hirdymor i foderneiddio'r drefn reoleiddio er mwyn iddi fod yn fwy ystwyth yn wyneb newidiadau cyflym i'r system fwyd fyd-eang ac er mwyn cadw gwyliadwriaeth a sganio'r gorwel i achub y blaen ar unrhyw fygythiadau a allai godi. Ac rydym wedi gwneud ymrwymiad pwysig i wella bywydau'r bobl hynny ag alergeddau bwyd ac anoddefiadau i fwyd – problemau iechyd sy'n gallu cael effaith fawr ar fywydau pobl fel risgiau microbiolegol 'traddodiadol' sy'n gysylltiedig â bwyd a gafodd eu hanwybyddu am yn rhy hir.

Fel cadeirydd yr ASB, byddwch yn arwain y Bwrdd i bennu blaenoriaethau strategol i gyflawni dibenion statudol yr ASB, gan bennu targedau a mesur canlyniadau i olrhain cynnydd, a sicrhau bod rhaglenni a chynlluniau'n cael eu rhoi ar waith. Mae'r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau pwysig am faterion iechyd y cyhoedd a materion rheoleiddio, a

hynny'n aml ar sail cyngor arbenigol ein pwyllgorau gwyddonol annibynnol, yn ogystal â'n timau gwyddoniaeth ac ymchwil mewnol. Mae Cadeirydd yr ASB yn arwain y berthynas ag ystod eang o randdeiliaid. Y pwysicaf o'u plith yw'r berthynas â Gweinidogion ac aelodau etholedig y tair gweinyddiaeth. Rydym yn ymdrin â'r rhan fwyaf o'n busnes yn Senedd y DU, Senedd Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon ein hunain, er mai'r Gweinidog Iechyd y Cyhoedd perthnasol sy'n ymdrin â deddfwriaeth a materion 'ar lawr y Tŷ'. Mae'r berthynas â'n chwaer adran yn yr Alban, Safonau Bwyd yr Alban, hefyd yn hollbwysig.

Heddiw, mae Bwrdd yr ASB yn edrych ymlaen yn eiddgar at yr heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau. Rydym am gael ein hystyried yn rheoleiddiwr modern, atebol a rhagorol. I mi, mae'r profiad o gadeirio'r ASB wedi bod yn gyffrous, yn heriol ac yn fuddiol o safbwynt deallusol, ac yn bleserus iawn. Mae gennym dîm gwych o swyddogion ymroddedig a gwybodus sy'n cael eu harwain gan Brif Weithredwr dawnus. Mae llawer o waith i'w wneud, ac mae gennym y gallu, y cymhelliad a'r penderfyniad i gyflawni'r gwaith hwnnw – ac rydym bob amser yn ceisio gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i iechyd ac i ansawdd bywyd pawb ar draws y wlad.

Heather Hancock LVO DL

Cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Rôl a chyfrifoldebau'r Asiantaeth Safonau Bwyd

Mae'r ASB yn adran Adran Anweinidogol y Llywodraeth annibynnol. Fe'i sefydlwyd gan Ddeddf Seneddol yn 2000 i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr o ran bwyd.

Rydym yn rhoi sylw i ddiogelwch bwyd ym mhob cam o'r gadwyn gyflenwi, o'r adeg y caiff ei gynhyrchu i'r adeg y caiff ei weini ar blât. Yn rhinwedd ein rôl fel yr awdurdod cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddiogelwch bwyd, rydym yn pennu'r rheoliadau y mae'n rhaid i fusnesau bwyd eu dilyn, ac yn cydweithio â phartneriaid ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i wneud yn siŵr bod y rheoliadau hynny'n cael eu gorfodi. Rydym am wneud yn siŵr bod y cyhoedd yn ymddiried yn y bwyd y maent yn ei fwyta, ac felly rydym yn gweithio mewn ffordd agored a thryloyw, gan wneud yn siŵr bod iechyd a buddiannau defnyddwyr wrth wraidd popeth yr ydym yn ei wneud.

Mae'r ASB yn atebol i Senedd y DU, i Senedd Cymru ac i Gynulliad Gogledd Iwerddon. Rydym yn cydweithio'n agos â'n cydweithwyr yn Safonau Bwyd yr Alban i ddarparu trefn reoleiddio gadarn a chydlynol i wneud yn siŵr bod defnyddwyr ar draws y DU yn gallu bod yn hyderus bod y safonau bwyd uchaf yn cael eu pennu a'u cynnal. I'n helpu i gyflawni'r nod hwn, mae gan yr adran swyddfeydd yng Nghaerdydd, Llundain, Belffast, Caerefrog a Birmingham, ac mae'n cyflogi dros 1,300 o staff. Yn ogystal â chydweithio â phartneriaid amrywiol eraill yn y llywodraeth, gan gynnwys rhoi cyngor i Weinidogion ar draws y tair llywodraeth, rydym hefyd yn mynd ati i ymgysylltu'n rhyngwladol. Rydym yn sicrhau ein bod yn chwarae rôl bwysig yn y broses o bennu safonau rhyngwladol ac yn rhannu arferion gorau ag awdurdodau cymwys cenedlaethol eraill.

Fel yr awdurdod canolog ar gyfer diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, rydym yn wynebu ystod fawr o heriau cymhleth sy'n ddibynnol ar amser. Bwyd a diod yw sector gweithgynhyrchu mwyaf y DU, a bu i'r sector bwyd-amaeth cyfan gyfrannu bron i £122 biliwn i'r gwerth ychwanegol gros (GVA) cenedlaethol yn 2017. Ar ben hyn, mae'r cyd-destun cenedlaethol a byd-eang y mae'r ASB yn gweithredu ynddo yn newid

yn gyflym, ac mae angen i'r ASB barhau i esblygu er mwyn iddi ateb galwadau'r cyhoedd wrth iddynt newid. Ar adeg pan fo masnach fyd-eang ddynamig yn rhoi mwy o ddewis nag erioed o'r blaen i ddefnyddwyr y DU, arferion prynu newydd yn dod i'r amlwg, a dewisiadau deietegol yn newid, yn ogystal â'r angen i fynd i'r afael ag iechyd, llesiant a'r amgylchedd mewn ffordd gyfannol, rhaid i'r ASB barhau i fodloni disgwyliadau'r gymdeithas. Wrth iddi wneud hynny, rhaid i'r ASB fanteisio ar dechnolegau newydd a phrosesau sy'n cael eu llywio gan ddata er mwyn iddi fynd ati ar sail risg i bennu safonau ac i orfodi'r rheoliadau mewn dros 600,000 o fusnesau.

Un o'r heriau mawr sy'n wynebu'r sector bwyd-amaeth yw'r cynnydd yn y posibilrwydd o weithgarwch anghyfreithlon drwy droseddau bwyd, a hynny oherwydd bod y cyd-destun rheoleiddiol yn newid yn gyflym. Mae'r ASB wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau dilysrwydd a tharddiad bwyd ym mhob rhan o'r gadwyn gyflenwi drwy sefydlu'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd. Mae gan yr adran hefyd drefniadau i ymateb yn gyflym ac yn gadarn i ddigwyddiadau bwyd, a bu iddi ymchwilio i 2,323 o ddigwyddiadau bwyd, bwyd anifeiliaid a halogi amgylcheddol yn 2018/19 yn unig.

Uchelgais yr ASB yw iddi gael ei chydnabod, gartref a thramor, fel Rheoleiddiwr Modern Atebol Rhagorol. Pwrpas statudol yr ASB yw diogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau ehangach defnyddwyr o ran bwyd.

I wireddu hyn, mae'r ASB yn rhoi tair egwyddor graidd ar waith:
• Gweithredu er budd defnyddwyr;
• Bod yn agored ac yn dryloyw;
• Gwneud penderfyniadau a rhoi cyngor ar sail gwyddoniaeth a thystiolaeth.

Blaenoriaethau strategol yr ASB ar gyfer 2020/21 yw:

- Ymadael â'r UE
- Diwygio rheoleiddio
- Gweithrediadau trawsnewid
- Gorsensitifrwydd i fwyd
- Cadw gwyliadwriaeth.

Ym mhob rhan o'n gwaith, mae'r ASB wedi ymrwymo i wneud y pethau hyn:

• Datblygu ein gallu gwyddonol i sicrhau bod ein gwaith yn seiliedig ar gyngor gwyddonol cadarn a chyfredol, gan gynnwys mynd ati'n barhaus i sicrhau ein rhaglen dadansoddi risgiau

• Sicrhau bod gweithgareddau i reoleiddio diogelwch bwyd yn y DU yn cael eu moderneiddio er mwyn iddynt fod yn seiliedig ar risg, cael eu llywio gan ddata, a bod yn addas i'r diben

• Dod yn arweinydd byd-eang ym maes rheoleiddio diogelwch bwyd, drwy gydweithio a rhannu gwybodaeth â sefydliadau â'r un meddylfryd ledled y byd

• Darbwyllo partneriaid masnach y DU o ansawdd ac effeithiolrwydd trefn rheoleiddio diogelwch bwyd y DU.

Cewch hyd i ystod eang o wybodaeth am waith yr ASB ar ein gwefan yn:
https://www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/pwy-ydym-ni ac yn y llyfryn 'Amdanom ni':
(Fersiwn Gymraeg)
(Fersiwn Saesneg)

Adran 2: Sut i wneud cais

2.1 Gwneud cais

Diolch yn fawr am eich diddordeb yn y broses i benodi Cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB).

I wneud cais, gofynnwn i chi anfon eich CV, llythyr ategol a'r ffurflenni monitro drwy'r e-bost at:

appointments.team@dhsc.gov.uk – gan roi'r cyfeirnod **VAC-1692** yn llinell pwnc y neges.

Os na allwch wneud cais drwy'r e-bost, cysylltwch â Daniel Clemence drwy ffonio 0113 2545335.

Rhaid i bob cais ddod i law erbyn canol dydd ar 25 Ionawr 2021

Pan fyddwch yn gwneud cais, cadwch y pethau a ganlyn mewn cof:

Llythyr ategol

Y llythyr ategol yw'ch cyfle chi i ddangos sut yr ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf a nodir ym manyleb y person. Byddai'n fuddiol i'r Panel Asesu Cynghorol pe baech yn nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae rhoi paragraffau ar wahân ar gyfer pob maen prawf yn ffordd gyffredin o wneud hyn. Ysgrifennwch ffurf lawn pob acronym y tro cyntaf y byddwch yn ei ddefnyddio.

Ar frig eich llythyr, gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi'n glir eich enw llawn, teitl y swydd yr ydych yn gwneud cais amdani, a chyfeirnod y swydd honno.

Ni ddylai'ch llythyr fod yn hirach na dwy ddalen, a dylech deipio'ch llythyr neu'i ysgrifennu'n glir mewn inc du.

Buddiannau sy'n gwrthdaro

Os oes gennych unrhyw fuddiannau busnes neu fuddiannau personol a allai fod yn berthnasol i waith yr ASB, ac a allai arwain at wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ymddangosiadol pe caech eich penodi, rhowch fanylion yn eich llythyr ategol.

Os cewch eich penodi, bydd gofyn i chi ddatgan y buddiannau hyn pan gewch eich penodi, ac fe'u cofnodir mewn cofrestr a fydd ar gael yn gyhoeddus.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus ac ennyn hyder y cyhoedd

Oherwydd natur penodiadau cyhoeddus, mae'n bwysig bod y rheini a benodir yn aelodau o gyrff cyhoeddus yn parhau i ennyn hyder y cyhoedd a'r Llywodraeth. Os yw'ch hanes personol neu broffesiynol yn cynnwys unrhyw faterion (gan gynnwys collfarnau neu fethdaliadau) a allai, pe caech eich penodi, gael eu camddehongli, peri embaras i Weinidogion neu'r ASB, neu beryglu hyder y cyhoedd yn y penodiad, mae'n bwysig eich bod yn tynnu sylw'r Panel Asesu Cynghorol at y materion hynny ac yn rhoi manylion amdanynt yn eich llythyr ategol. Pan fyddwch yn ystyried a ydych am ddatgan unrhyw faterion, dylech hefyd ystyried unrhyw ddatganiadau cyhoeddus a wnaed gennych, gan gynnwys drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac mewn blogiau. Gall unrhyw wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus fod yn destun gwaith diwydrwydd dyladwy, ac fe allai gael ei rhannu â'r Panel Asesu Cynghorol.

Gallai'r panel drin a thrafod â chi unrhyw faterion y byddwch wedi eu datgan cyn iddynt wneud argymhelliad ynghylch y penodiad.

O fethu â datgelu gwybodaeth o'r fath, gallai arwain at derfynu'r penodiad, oherwydd bod disgwyl i'r rheini sy'n cael eu penodi i swyddi cyhoeddus ddangos bod eu hymddygiad corfforaethol a phersonol yn bodloni'r safonau uchaf, ac oherwydd bod gofyn iddynt ymrwymo i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o Fyrddau Cyrff Cyhoeddus pan fyddant yn cytuno i delerau ac amodau'r penodiad. Gallwch gael gafael ar y ddogfen hon yn:

https://www.gov.uk/government/publications/board-members-of-public-bodies-code-of-conduct

Mewn rhai amgylchiadau, efallai nad ystyrir penodi unigolion oherwydd nad ydynt yn bodloni meini prawf penodol i'w penodi. I gael mwy o wybodaeth, ewch i **Adran 2.3: Anghymhwyso rhag penodi**

Os hoffech drafod mater sy'n ymwneud â gwrthdaro, ewch i'r adran manylion cyswllt.

CV

Gwnewch yn siŵr bod eich CV yn cynnwys:

- Eich enw llawn, eich teitl, eich cyfeiriad cartref, eich rhifau ffôn cyswllt personol (ffôn y tŷ a ffôn symudol), eich cyfeiriad e-bost personol, a manylion unrhyw gyfrifon Twitter a chyfrifon LinkedIn, gan gynnwys eich enw Twitter/enw defnyddiwr.

- Manylion cyswllt o'r fath ar gyfer dau ganolwr a fydd yn cefnogi'ch cais. Dylai un canolwr fod yn unigolyn yr ydych/yr oeddech yn atebol iddo ef neu iddi hi yn eich penodiad neu'ch swydd gyfredol/ddiweddaraf. Nodwch y berthynas rhyngoch chi a phob canolwr. Byddwn yn gofyn am eirdaon ar gyfer yr ymgeiswyr ar y rhestr fer cyn y cyfweliad.

- Manylion bras am eich swydd bresennol neu'ch swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau presennol neu flaenorol a wnaed gan Weinidogion.

Bydd penodiad Cadeirydd yr ASB yn destun gwrandawiad cyn penodi gyda'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. **I gael mwy o fanylion, ewch i Adran 2.2. Sylwch y bydd CV yr ymgeisydd a ffefrir gan y Gweinidogion yn cael ei anfon at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ar ôl dileu'r manylion personol.**

Ffurflen fonitro

Gofynnwn i chi lenwi'r ffurflen fonitro. Ni fydd y Panel Asesu Cynghorol a fydd yn asesu eich cais yn gweld yr wybodaeth monitro amrywiaeth.

Gofynnir am wybodaeth am unrhyw weithgarwch gwleidyddol yn bennaf at ddibenion monitro yn unig, ond os cewch eich rhoi ar y rhestr fer i'ch cyfweld, bydd yr wybodaeth hon yn cael ei rhannu â'r panel dethol. Gwneir hyn oherwydd ein bod yn deall y gallech fod wedi meithrin sgiliau perthnasol drwy ymgymryd â gweithgareddau o'r fath, gan gynnwys profiad o weithio ar bwyllgorau, gwneud penderfyniadau ar y cyd, datrys gwrthdaro, a siarad yn gyhoeddus. Os ydych wedi cael profiad o'r fath a'ch bod yn tybio ei fod yn berthnasol i'ch cais ar gyfer y swydd hon, dylech hefyd achub ar y cyfle i'w gynnwys yn eich datganiad ategol. Fodd bynnag, os yw'n bosibl, ni ddylech enwi'r blaid wleidyddol berthnasol yn eich datganiad.

Os cewch eich penodi i'r swydd hon, sylwch y bydd unrhyw weithgarwch gwleidyddol a gaiff ei ddatgan gennych yn cael ei gyhoeddi yn unol â'r Cod Llywodraethu Penodiadau Cyhoeddus.

Cynllun Hyderus o ran Anabledd

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gwerthfawrogi ac yn hyrwyddo amrywiaeth ac wedi ymrwymo i gyfle cyfartal i bawb ac i benodi pobl anabl. Fel rhan o'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd, rydym yn gwarantu cyfweliad i unrhyw un ag anabledd sy'n gwneud cais o dan y Cynllun os yw'n bodloni meini prawf hanfodol y swydd.

Beth ydyn ni'n ei olygu wrth anabledd?

I fod yn gymwys ar gyfer y Cynllun Hyderus o ran Anabledd, rhaid bod gennych anabledd neu gyflwr iechyd tymor hir, a allai fod yn gorfforol, yn synhwyraidd neu'n feddyliol a rhaid disgwyl iddo bara am o leiaf 12 mis. Nid oes rhaid i chi fod wedi'ch cofrestru fel person anabl i wneud cais o dan y cynllun hwn.

Os ydych am wneud cais o dan y Cynllun hwn, gofynnwn i chi lenwi ffurflen y Cynllun Gwarantu Cyfweliad a'i dychwelyd gyda'ch cais.

Byddwn yn cydnabod pob cais drwy neges e-bost ar ôl y dyddiad cau.

Manylion cyswllt

I gael mwy o wybodaeth am **rôl yr ASB** a **rôl y Cadeirydd**, cysylltwch â:

Enw: Dr David Self – Pennaeth y Swyddfa Breifat

Ffôn: 07984 883451

E-bost: David.Self@food.gov.uk

neu

Enw: Emily Miles – Prif Weithredwr

E-bost: Emily.miles@food.gov.uk

I gael mwy o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â

Daniel Clemence

Y Tîm Penodiadau

Ffôn: 0113 2545335

E-bost: Daniel.Clemence@dhsc.gov.uk

Cofiwch ddyfynnu'r cyfeirnod VAC-1692 ar unrhyw ohebiaeth.

Os byddwch yn penderfynu gwneud cais, hoffem ddiolch i chi ymlaen llaw am eich amser a'ch ymdrech.

2.2. Y broses ddethol

Bydd y Tîm Penodiadau'n ymdrin â'ch cais cyn gynted â phosibl ac yn rhoi gwybod i chi beth yw'r amserlen debygol ym mhob cam.

Amserlen:

- Dyddiad cau: Canol dydd ar 25 Ionawr 2021
- Llunio'r rhestr fer: 08 Chwefror 2021
- Cynnal cyfweliadau: 22 Chwefror 2021
- Gwrandawiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ebrill (dyddiad i'w gadarnhau)

Aelodau'r panel dethol fydd:

- Jonathan Marron, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (cadeirydd y panel)
- Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol Cymru, fel aelod o'r panel
- Christine Middlemiss, Prif Swyddog Milfeddygol Defra, fel aelod o'r panel
- Cindy Butts, un o Gomisiynwyr y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol, fel Uwch-aelod Annibynnol o'r Panel

Mae'r Uwch-aelod Annibynnol o'r Panel yn annibynnol ar yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r ASB.

Yn unol â'r Cod Llywodraethu Penodiadau Cyhoeddus, rydym wedi ymgynghori â'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ynghylch yr Uwch-aelod Annibynnol a fydd yn aelod o'r panel.

Yn unol â'r Cod Llywodraethu Penodiadau Cyhoeddus, mae'n ofynnol i holl aelodau'r Panel Asesu Cynghorol ddatgan unrhyw weithgarwch gwleidyddol yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Mae holl aelodau'r panel wedi datgan nad ydynt wedi cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch gwleidyddol yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Rhaid nad yw Uwch-aelodau Annibynnol o'r Panel wedi cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch gwleidyddol yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:

- Gallai'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol gomisiynu rhag-asesiad o geisiadau'r ymgeiswyr i'w roi i'r Panel ei ystyried ac i osod sail ar gyfer y broses o lunio rhestr fer. Drwy wneud cais, rydych yn cytuno y cawn rannu eich cais â pharti arall i gynnal rhag-asesiad. Bydd y rhag-asesydd a'r panel yn dibynnu ar yr wybodaeth a ddarperir gennych yn eich CV a'ch llythyr ategol i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol. Cyfrifoldeb y panel fydd penderfynu pwy sy'n bodloni meini prawf y swydd orau yn ei dyb ef, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad.

- Cynhelir y cyfweliadau ar 22 Chwefror 2021. Mae'n debygol y caiff y cyfweliadau eu cynnal drwy gynhadledd fideo/ffôn oherwydd cyfyngiadau Covid-19, ond os na wneir hynny, fe'u cynhelir yng nghanol Llundain.

- Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r Panel Asesu Cynghorol yn credu eu bod wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodir ym manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Fodd bynnag, os ydych wedi gwneud cais o dan y Cynllun Hyderus o ran Anabledd a'ch bod yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol, cewch eich gwahodd i gyfweliad hefyd.

- Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac nad ydych yn gallu dod i'r cyfweliad ar y dyddiad penodedig, dim ond yn ôl disgresiwn y Panel Asesu Cynghorol y gellir cynnig dyddiad arall.

- Bydd y Tîm Penodiadau yn anfon neges e-bost atoch i roi gwybod i chi a ydych yn cael eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Rydym yn bwriadu cynnal y cyfweliadau drwy gynhadledd fideo/ffôn.

- Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, efallai y bydd y Panel Asesu Cynghorol yn eich gwahodd i roi cyflwyniad byr ar ddechrau'r cyfweliad, cyn mynd ati i'ch holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan gynnwys gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni meini prawf y swydd.

- Bydd y Panel Asesu Cynghorol hefyd yn trin a thrafod â'r ymgeiswyr unrhyw fuddiannau a allai wrthdaro neu unrhyw faterion eraill sy'n codi o'u hanes personol a phroffesiynol a allai effeithio ar y penderfyniad penodi (gweler adran 2.1 i gael mwy o fanylion).

- Bydd yr ymgeiswyr sy'n addas i'w penodi yn nhyb y panel yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion er mwyn iddynt wneud y penderfyniad terfynol. Gallai'r Gweinidogion ddewis cwrdd â'r ymgeiswyr ar y rhestr fer, cyn neu ar ôl y cyfweliad, cyn penderfynu. Felly, dylai'r ymgeiswyr fod yn barod am oedi rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael gwybod am hynt y broses.

- Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr gan y Gweinidogion i'ch penodi'n Gadeirydd yr ASB. Bydd y llythyr hwnnw'n cadarnhau telerau ac amodau'r penodiad a gynigir i chi.

- **Oherwydd nifer y ceisiadau sy'n dod i law, sylwch nad yw'n bosibl rhoi adborth fel mater o drefn i'r rheini nad ydynt yn cael eu rhoi ar y rhestr fer i'w cyfweld.**

- Os ydych yn gwneud cais o dan y Cynllun Hyderus o ran Anabledd ac nad ydych yn cael eich rhoi ar y rhestr fer i'ch cyfweld, gallwn roi crynodeb o'r asesiad o'ch cais ysgrifenedig i chi os byddwch yn gofyn i gael adborth.

- Os na fyddwch yn llwyddiannus ar ôl cael cyfweliad, bydd y Tîm Penodiadau'n rhoi gwybod i chi. Rydym yn sylweddoli bod gwneud cais am swydd, paratoi ar gyfer cyfweliad a mynd i'r cyfweliad hwnnw yn gofyn am lawer o amser ac ymdrech, a bod cael adborth yn rhan werthfawr o'r broses. Ar ôl y cyfweliadau, bydd y llythyr sy'n cadarnhau canlyniad y broses benodi'n rhoi manylion y rheini y gallwch gysylltu â nhw i gael adborth am eich cyfweliad a'ch cais os ydych am wneud hynny.

- I gael mwy o wybodaeth am y ffordd y byddwn yn rheoli'r wybodaeth bersonol a ddarperir gennych yn eich cais, ewch i **Adran 2.4**.

Craffu cyn penodi

Mae'r swydd hon yn destun gwaith craffu cyn penodi gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae gwaith craffu cyn penodi yn rhan bwysig o'r broses benodi ar gyfer rhai o'r penodiadau cyhoeddus pwysicaf a wneir gan Weinidogion. Bwriedir iddo fod yn haen ychwanegol o waith craffu i gadarnhau bod y broses recriwtio'n bodloni'r egwyddorion a nodir yn y Cod Llywodraethu Penodiadau Cyhoeddus.

Mae i'r gwaith craffu cyn penodi ddwy ran.

Yn gyntaf, rhennir gwybodaeth am y penodiad a'r ymgeisydd a ffefrir gan y Gweinidogion â'r pwyllgor dethol perthnasol. Fel rhan o'r broses hon, bydd gofyn i chi fod yn fodlon i'ch enw a'ch CV gael eu rhannu â'r Pwyllgor Dethol fel yr ymgeisydd a ffefrir gan y Llywodraeth. Gall fod gofyn i chi hefyd lenwi holiadur gwrandawiad cyn penodi a allai ofyn i chi wneud y pethau a ganlyn, ymhlith pethau eraill:

- Datgan unrhyw fuddiannau perthnasol a allai wrthdaro,

- Nodi'r blaenoriaethau a'r prif risgiau i'r sefydliad yn eich tyb chi,

- Ateb cwestiynau am y ffordd y byddech yn arwain y bwrdd ac yn cydweithio â rhanddeiliaid,

- Nodi eich ymrwymiad i safonau mewn bywyd cyhoeddus ac egluro sut y byddech yn ymdopi â bod yng ngŵydd y cyhoedd.

Fel arfer, bydd unrhyw wybodaeth a ddarperir i'r pwyllgor dethol gan y Llywodraeth neu'r ymgeisydd yn cael ei chyhoeddi.

Yn ail, mae'n debygol y bydd y pwyllgor dethol yn penderfynu galw'r ymgeisydd a ffefrir gan y Llywodraeth i wrandawiad cyhoeddus gerbron y pwyllgor dethol i ateb cwestiynau am ei addasrwydd ar gyfer y swydd. Ni fydd disgwyl i chi feddu ar wybodaeth dechnegol fanwl am y ffordd y mae'r sefydliad yn gweithio na chynllun pendant ar gyfer yr hyn y byddech yn ei wneud yn y swydd, ond bydd disgwyl i chi roi darlun credadwy o'r hyn yr ydych yn ei ddeall am waith y sefydliad a'ch rôl chi yn ei ddyfodol.

Bwriedir cynnal gwrandawiad cyn penodi ar gyfer y swydd hon ym mis Ebrill.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod penodiadau cyhoeddus mor hygyrch â phosibl fel nad oes neb yn cael ei rwystro rhag gwneud cais. Bydd yr Adran yn darparu cymorth i'ch helpu i baratoi ar gyfer y gwrandawiad a bydd clercod y pwyllgor dethol hefyd ar gael i drafod trefn y gwrandawiad â chi. Bydd yr Adran hefyd yn eich cynorthwyo i weithio gyda'r pwyllgor dethol os bydd angen gwneud unrhyw addasiad er mwyn i chi gymryd rhan lawn ym mhroses y gwrandawiad.

I gael mwy o wybodaeth am y gwaith craffu cyn penodi, darllenwch ganllawiau Swyddfa'r Cabinet am waith craffu cyn penodi gan bwyllgorau dethol Tŷ'r Cyffredin. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/771845/Cabinet-Office-Guidance-pre-appointment-scrutiny-of-public-appointments.pdf

Mae'r Pwyllgor Cyswllt hefyd yn cyhoeddi canllawiau i bwyllgorau dethol am waith craffu cyn penodi.

Gallai hefyd fod yn ddefnyddiol bwrw golwg dros y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o Fyrddau Cyrff Cyhoeddus yn: https://www.gov.uk/government/publications/board-members-of-public-bodies-code-of-conduct. Mae'n nodi'r hyn y mae'r Llywodraeth yn ei ddisgwyl gan aelodau anweithredol o gyrff cyhoeddus.

Ymholiadau

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch eich cais, cysylltwch â Daniel Clemence: Daniel.Clemence@dhsc.gov.uk

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl i chi arddel safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ymrwymo i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o Fyrddau

Cyrff Cyhoeddus. Gallwch weld y ddogfen yn: https://www.gov.uk/government/publications/board-members-of-public-bodies-code-of-conduct

Amrywiaeth a chyfle cyfartal

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn hybu amrywiaeth ac yn rhoi gwerth arni, ac mae'n annog pobl o bob rhan o'r gymuned i wneud cais.

Y Cod Llywodraethu Penodiadau Cyhoeddus

Mae'r Cod Llywodraethu Penodiadau Cyhoeddus, a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet, yn nodi'r egwyddorion a ddylai fod yn sail i bob penodiad cyhoeddus. Gallwch weld y Cod Llywodraethu yn: https://www.gov.uk/government/publications/governance-code-for-public-appointments

Y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus

Y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus sy'n rheoleiddio penodiadau cyhoeddus ar sail gofynion y Cod Llywodraethu. Mae'r Comisiynydd yn rhoi sicrwydd annibynnol bod penodiadau cyhoeddus yn cael eu gwneud yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod. Penodir y Comisiynydd gan y Frenhines ac mae'n annibynnol ar y Llywodraeth a'r Gwasanaeth Sifil. Ceir mwy o wybodaeth am rôl y Comisiynydd yn: http://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk

Os nad ydych yn hollol fodlon

Bydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ceisio prosesu pob cais cyn gynted â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gŵynion am y ffordd y cafodd eich cais ei drin, cysylltwch â Charlotte Broughton yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol drwy e-bostio Charlotte.Broughton@DHSC.gov.uk

Os byddwch yn dal i fod yn anfodlon ar ôl cael ymateb cynhwysfawr gan yr Adran, gallwch ysgrifennu at y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus:

Y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus
1 Horse Guards Road
Llundain SW1A 2HQ
Ffôn: 0207 271 8938
E-bost: publicappointments@csc.gov.uk

2.3 Anghymhwyso rhag penodi

Mewn rhai amgylchiadau, efallai na chaiff unigolion eu hystyried i'w penodi.

- Yn Rhan II o Atodlen 1 i Ddeddf Anghymhwyso Tŷ'r Cyffredin M1 1975 (cyrff y mae eu haelodau wedi'u hanghymhwyso), mewnosoder y geiriau "Yr Asiantaeth Safonau Bwyd" yn y man priodol.
- Yn Rhan II o Atodlen 1 i Ddeddf Anghymhwyso Cynulliad Gogledd Iwerddon M2 1975 (cyrff y mae eu haelodau wedi'u hanghymhwyso), mewnosoder y geiriau "Yr Asiantaeth Safonau Bwyd" yn y man priodol.

I gael mwy o wybodaeth am y meini prawf anghymhwyso, darllenwch y ddogfen lawn yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1999/28/contents

I gael mwy o gyngor ynghylch anghymhwyso rhag penodi, cysylltwch â Nicola Jenkins drwy ffonio 07855 514603.

Meini prawf cymhwysedd

Mewn rhai amgylchiadau, efallai na chaiff unigolion eu hystyried i'w penodi. Yn eu plith mae:

1. unigolion sydd wedi cael dedfryd o garchar neu ddedfryd ohiriedig o dri mis neu ragor yn ystod y pum mlynedd diwethaf

2. unigolion sy'n destun gorchymyn cyfyngiadau methdalu neu orchymyn interim, neu orchymyn rhyddhau o ddyled neu orchymyn rhyddhau o ddyled interim, o dan Atodlen 4ZB i Ddeddf Ansolfedd 1986

3. unigolion y cafodd eu penodiad blaenorol i gorff yn y gwasanaeth iechyd ei derfynu ar y sail:

    - nad oedd yn ffafriol i fuddiannau nac i reolaeth dda y corff fod yr unigolyn hwnnw'n parhau yn ei swydd

    - bod yr unigolyn wedi methu â mynd i gyfarfodydd y corff dair gwaith yn olynol

    - bod yr unigolyn wedi methu â datgan buddiant ariannol neu fethu ag ymneilltuo o drafodaeth am fater yr oedd gan yr unigolyn fuddiant ariannol ynddo

    - bod yr unigolyn wedi camymddwyn neu fethu â chyflawni ei ddyletswyddau

4. unrhyw un sy'n destun gorchymyn anghymhwyso o dan Ddeddf Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986, neu

5. unrhyw un sydd wedi'i ddiddymu o'i swydd fel ymddiriedolwr elusen.

2.4 Sut y byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Ni fyddwch yn cael post diofyn, ar bapur nac yn electronig, oherwydd i chi anfon gwybodaeth bersonol at yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei throsglwyddo i drydydd partïon at ddibenion masnachol.

Pan fyddwn yn gofyn i chi am wybodaeth bersonol, rydym yn addo y byddwn:

- yn gofyn am yr hyn sydd ei angen arnom yn unig, ac na fyddwn yn casglu gormod o wybodaeth na gwybodaeth amherthnasol
- yn sicrhau eich bod yn gwybod pam mae angen yr wybodaeth hon arnom
- yn diogelu'r wybodaeth a, lle bo'n bosibl, yn sicrhau nad oes unrhyw un nad oes ganddynt hawl i wneud hynny yn cael mynediad ati
- yn sicrhau eich bod yn gwybod am eich dewisiadau chi o ran rhannu gwybodaeth â ni
- yn sicrhau nad ydym yn cadw'r wybodaeth yn hirach na sydd angen
- dim ond yn defnyddio'ch gwybodaeth at y dibenion yr ydych chi wedi caniatáu inni ei defnyddio

Rydym yn gofyn i chi:

- ddarparu gwybodaeth gywir i ni
- rhoi gwybod inni cyn gynted â phosibl am unrhyw newidiadau neu os byddwch yn sylwi ar gamgymeriadau yn yr wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi

Os byddwch yn gwneud cais am swydd, byddwn yn rhannu peth o'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu ag aelodau panel dethol y swydd yr ydych yn gwneud cais amdani er mwyn iddynt asesu'ch CV a'ch llythyr ategol.

Ni fydd eich gwybodaeth amrywiaeth yn cael ei defnyddio yn y broses ddethol ac felly ni fydd yn cael ei rhannu â'r Panel Asesu Cynghorol a fydd yn asesu'ch cais ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, gallai'r panel roi sylw i'ch ymateb i'r cwestiwn am weithgarwch gwleidyddol yn ystod y cyfweliad. Ni fydd hyn mewn unrhyw ffordd yn eich atal rhag cael eich penodi. Ceir mwy o wybodaeth am hyn ar y ffurflen fonitro atodedig.

Mae'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yn rheoleiddio ac yn monitro penodiadau i gyrff cyhoeddus i sicrhau bod y gweithdrefnau'n deg. Mae'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yn peri iddi fod yn ofynnol i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol gadw gwybodaeth am y

bobl sy'n gwneud cais am benodiadau cyhoeddus o fewn ei chylch gwaith a darparu'r wybodaeth hon i'r Comisiynydd at ddibenion archwilio, os gofynnir iddi wneud hynny. Felly, mae'n bosibl y bydd gwybodaeth a ddarperir gennych yn eich cais ar gael i'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ac archwilwyr y Comisiynydd ei gweld yn gyfrinachol i'w helpu i ymchwilio i gŵynion ffurfiol sy'n dod i law'r Comisiynydd neu at ddibenion archwilio.

© Hawlfraint y Goron 2021

Cyhoeddwyd ar wefan GOV.UK ar ffurf PDF yn unig.

www.gov.uk/dhsc

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i: nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Os ydym wedi nodi gwybodaeth y mae ei hawlfraint yn eiddo i drydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliad yr hawlfraint honno.